# Beth yw'ch barn chi am fyd yr awyr agored?

| | |
|---|---|
| **Cefndir** | Yn yr ymchwiliad hwn, mae'r dysgwyr yn cael eu harwain i bwyso a mesur eu barn am ansawdd yr amgylchedd mewn ardal ac wedyn i gynllunio a dylunio gwelliannau i'r ardal. Rhaid i'r dysgwyr ystyried eu barn nhw eu hunain a barn pobl eraill fel rhan o broses yr ymchwilia. Fe allan nhw ganolbwyntio ar yr ardal leol, tiroedd yr ysgol neu efallai parc lleol. |
| **Nod** | Datblygu sgiliau maes gwaith daearyddol y dysgwyr drwy gynnal ymchwiliad amgylcheddol ar raddfa fach. |
| **Cynnwys** | 5/6 o weithgareddau |
| **Amseru** | 1 tymor |
| **Oedran targed** | Blynyddoedd 5 a 6 |
| **Cysylltiadau'r LNF** | wedi'u rhestru ar gyfer y gweithgareddau penodol drwy ddefnyddio codau llwybrau sgiliau'r fframwaith. |

## Gweithgaredd pellach

# Beth yw'r lleoedd mwyaf eco-gyfeillgar yn ein hardal leol ni?

- Edrychwch ar awyrlun neu fap o'ch ardal leol.
- Dewiswch chwe lle i ymweld â nhw er mwyn gwneud arolwg amgylcheddol.
- Defnyddiwch y tabl isod i'ch helpu i gofnodi lleoliad y chwe lle yn eich ardal leol.

| Lle | Lleoliad ar y map |
|---|---|
| 1 | 23, 46 |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

## Nodiadau i Athrawon

Paratoi a gwybodaeth flaenorol: dylai'r dysgwyr wybod sut mae darllen map syml a deall prif nodweddion map; a deall y gall pobl wella lleoedd yn ogystal â'u gwneud yn waeth. Cyfleoedd y groesgyfeirio at weithgareddau yn Rhan 3: Ein Byd o Fapiau*

Llwybrau Sgiliau Rhifedd: M9 = Arwynebedd a chyfaint, ongl a safle: Cyfeiriad
Llwybrau Sgiliau Llythrennedd: OC1 – Cydweithio a Thrafod: cyfrannu, sgwrsio/trafod.

## Gweithgaredd pellach

# Pa mor eco-gyfeillgar yw'r lleoedd hyn? Gadewch inni chwilio!

Pa eirfa allwn ni ei defnyddio i ddisgrifio ac i bwyso a mesur yr amgylchedd?

Mewn parau, rhestrwch ansoddeiriau posibl y gallech eu defnyddio i'ch helpu.

| Amgylchedd – ansawdd dda | Amgylchedd – ansawdd wael |
|---|---|
| deniadol | brwnt |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

Defnyddiwch fanc geiriau a geiriadur neu thesawrws i'ch helpu.

Banc geiriau:
hyll, brwnt, deniadol, lliwgar, glân, tawel, swnllyd, diddorol, dan ofal, hapus, trist, diflas, blêr.

## Nodiadau i Athrawon

Llwybrau Sgiliau Llythrennedd: OC2 Cydweithio a Thrafod: Cyfrannu, sgwrsio/trafod. RS5 – Strategaethau darllen: Sgimio a sganio. RS8 - Strategaethau darllen: Dod o hyd i wybodaeth. WL2: Ysgrifennu'n Gywir – Defnyddio geirfa

## Gweithgaredd pellach

# Amser i arolygu ansawdd yr amgylchedd!

**Gadewch inni ymweld â'r chwe lle a chynnal arolwg!**

Defnyddiwch y siart dau begwn i gofnodi'ch canfyddiadau.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Deniadol | | | | Hyll |
| Glân | | | | Brwnt |
| Tawel | | | | Swnllyd |
| Diddorol | | | | Diflas |
| Dan ofal | | | | Blêr |
| Hapus | | | | Trist |

## Nodiadau i Athrawon

Ar gyfer pob safle, dylai'r dysgwyr: (i) cofnodi rhif ac enw'r safle, (ii) creu braslun neu dynnu ffotograff i'w ychwanegu wedyn; (iii) rhoi sgôr i'r safle ar y siart dau begwn drwy liwio'r wyneb hapus os ydyn nhw o'r farn bod y lle'n ddeniadol, yr wyneb trist os ydyn nhw o'r farn nad yw'n ddeniadol a'r wyneb niwtral os nad ydyn nhw'n siŵr neu os yw'r safle rywle yn y canol. *Nawr maen nhw wedi casglu data. Mynegi barn sy'n cael ei wneud yn yr arolwg hwn ac felly mae'n un goddrychol. Does dim rhaid iddyn nhw gytuno â neb arall ac maen nhw'n cael lliwio'r wynebau fel mynnan nhw.

Llwybrau Sgiliau Llythrennedd: OS1 – Llafaredd – Siarad: Mynegi barn. WM3 – Trefnu Gwybodaeth a Syniadau: Ysgrifennu cynllun.

## Gweithgaredd pellach


# Beth mae'n harolwg ni'n dweud wrthon ni am ansawdd ein hamgylchedd lleol?

**Gadewch inni edrych ar ein canlyniadau!**

Lluniwch graff llinell ffortiwn i'ch helpu i gyflwyno data'r arolwg.

Defnyddiwch y templed isod i helpu i greu'ch graff.

Gyda phartner, trafodwch ac esboniwch yr hyn y mae eich graffiau'n ei ddangos.




## Nodiadau i Athrawon

Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar eu canlyniadau a cheisio gorffen y graff llinell ffortiwn ar gyfer y safleoedd sydd wedi'u rhestru. Os rhoddodd y dysgwyr wynebau hapus i gyd i'r lle cyntaf yr ymwelwyd ag ef, gallant ychwanegu X ar frig y graff uwchben 'Lle 1'. Os rhoeson nhw wynebau trist, byddai'r X yn mynd ar y gwaelod. Os rhoeson nhw wynebu niwtral neu gymysgedd o wynebau gwahanol, yna maen nhw'n gosod yr X rywle yn y canol. Gwnewch hyn ar gyfer pob safle ac wedyn gofynnwch iddyn nhw gysylltu pob X i greu graff llinell syml. Nawr maen nhw wedi cyflwyno'u data.

Llwybrau Sgiliau Llythrennedd: OS1 – Llafaredd – Siarad: Mynegi barn. Llwybrau Sgiliau Rhifedd: D3: Casglu a chofnodi data, cyflwyno a dadansoddi data, dehongli data: Dehongli data. D4 – Casglu a chofnodi data, cyflwyno a dadansoddi data, dehongli canlyniadau: Cyflwyno data.

## Gweithgaredd pellach

# Beth yw barn pobl leol am ein syniadau ni?

**Gadewch inni greu holiadur!** Defnyddiwch y templed i'ch helpu i greu holiadur

**Defnyddiwch yr holiadur i gasglu barn pobl.**

| Syniad | Person 1 | Person 2 | Person 3 | Person 4 | Person 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | | | | | |
| 2 | | | | | |
| 3 | | | | | |
| 4 | | | | | |
| 5 | | | | | |
| 6 | | | | | |
| 7 | | | | | |
| 8 | | | | | |
| 9 | | | | | |

## Nodiadau i Athrawon

Diben yr holiadur yw ystyried safbwynt a barn pobl eraill. Ar yr holiadur, dylai'r dysgwyr ysgrifennu'r syniadau mwyaf poblogaidd y bydd y dosbarth yn cytuno arnyn nhw (hyd at 9 syniad). Os oes modd, ychwanegwch ffotograff o'r safle sydd i'w wella at yr holiadur. Wedyn dylen nhw ofyn i bump o bobl eraill (sy'n gallu bod yn ddysgwyr mewn dosbarthiadau eraill neu aelodau o'r teulu gartref) pa dri syniad sydd orau yn eu barn nhw, a thicio'r blychau hynny. Dylen nhw ofyn hefyd a oes ganddyn nhw syniadau eraill eu hunain. Ar ôl llenwi'r holiadur gallwn ystyried pa syniadau sydd fwyaf poblogaidd.

Llwybrau Sgiliau Llythrennedd: WS1 = Strwythur a Threfn: Defnyddio strwythurau ysgrifennu. WS3: Strwythur a Threfn: Ymwybyddiaeth o fformat.